**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**DYDD MERCHER, 29 MEDI 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Mercher, 29 Medi 2021

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Bithell, Derek Butler, Chris Dolphin, Ian Dunbar, Patrick Heesom, Christine Jones, Richard Jones, Richard Lloyd, Ted Palmer, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr: Bernie Attridge, Veronica Gay a Gladys Healey

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorydd Marion Bateman (fel arsylwr)

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Datblygu, Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Arweinydd Tîm – Cynllunio, Swyddog Cynllunio, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiadau Priffyrdd, Cyfreithiwr, Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 20. DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 21. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau i ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir Y Fflint:

https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4990&Ver=4&LLL=0

29.09.21 late observations

## 22. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi 2021.

Cadarnhawyd y cofnodion fel cofnod cywir, fel y cynigiwyd ac eiliwyd gan y Cynghorwyr Chris Bithell a Richard Lloyd.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

## 23. EITEMAU I'W GOHIRIO

Ni argymhellwyd gohirio dim un o’r eitemau

## 24. ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi’r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi ei gynnwys fel atodiad.

## 25. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Ar ddechrau’r cyfarfod nid oedd yr un aelod o’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a gorffennodd am 2:20pm)

..................................................

**Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â’r llyfrgell gweddarllediadau:http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 29 MEDI 2021**

| **RHIF YR EITEM** | CYNGOR TREF/ **CYMUNED** | **SAFLE/CAIS** | **SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL** | **PENDERFYNIAD** |
|---|---|---|---|---|
| MATERION CYFFREDINOL | | | | |
| 063502 | | Materion cyffredinol - ymgynghoriad o dan Adran 42 Deddf Cynllunio 2008; Awel y Môr (Sir Ddinbych) | Siaradodd Mr A Herbert, yr ymgeisydd, o blaid y cais. | Bod yr ymateb terfynol ar yr Ymgynghoriad ar Adran 42 ar gyfer Fferm Wynt ar y Môr Awel y Môr (Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol) i'w ddirprwyo i swyddogion mewn ymgynghoriad gyda'r Aelodau lleol (Ffynongroyw, Gronant a Threlawnyd Gwaenysgor). |
| CAIS I'W ADRODD AR GYFER GWNEUD PENDERFYNIAD | | | | |
| 062483 | Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton | Cais llawn – Adeiladu tri adeilad masnachol (B1 Busnes (Diwydiannol Ysgafn), B2 Defnydd Busnes a B8 Defnydd Storio a Dosbarthu) ynghyd ag adeiladu ffordd fynediad a pharcio a thŷ pwmp, is-orsaf, gosod seilwaith cysylltiol a safle platfform ar gyfer unedau ychwanegol drwy ymestyn Parc Busnes Penarlâg ar dir ym Manor Lane, Penarlâg, Sir y Fflint. | Ms E Carpenter, Cadnant Planning - roedd yr Asiant yn siarad o blaid y cais. | Cymeradwyo caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad ac yn dilyn dau amod ychwanegol, a Rhwymedigaeth Adran 106 i ddarparu gwelliannau Safle Bws yn unol ag argymhellion y Swyddog.<br><br>• Bod cynllun tirlunio manwl a chynllun rheoli yn cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan Wasanaethau Cynllunio'r Cyngor Sir; a<br><br>• Bod cyflwyno a chymeradwyo cynllun rheoli darparu ynghlwm i unrhyw ganiatâd. |